## Ydych chi'n gwybod pwy sy'n debygol o fod yn gamdrinwyr?

Gall camdrinwyr rhywiol fod yn rhywun – dynion, merched, pobl ifanc, plant, aelodau o'r teulu, ffrindiau neu weithwyr proffesiynol sy'n wybyddus i blentyn.

Maent yn bobl rydym yn eu hadnabod, pobl rydym yn gofalu amdanynt, pobl o bob dosbarth, diwylliant a chefndiroedd.

"Roedd yn edrych mor gyffredin ac yn wych gyda phlant. Ni fyddwn byth wedi ei gydnabod fel camdriniwr."

**Mam bachgen 7 oed gafodd ei gam-drin gan ei gymydog**

## Ydych chi'n gwybod sut maent yn wneud o heb i chi ddeall?

Drwy ddod yn agos at blant ac oedolion – defnyddio'r broses 'grwmio' er mwyn adeiladu perthyas gyda'r plentyn a'r oedolyn gofalgar sy'n ceisio eu gwarchod, drwy gyflwyno eu hunain fel dibynadwy.

Drwy dawelu plant – gydag anrhegion, pleserau a bygythiadau beth all ddigwydd os byddai'r plentyn yn dweud 'na' neu'n dweud wrth rhywun.

## Ydych chi'n gwybod pam nad yw plant yn dweud nag yn gofyn am help?

Nid yw plant yn dweud oherwydd nifer o bethau:

- Ofn na fyddai neb yn eu credu
- Wedi cael eu bygwth neu eu llwgrwobrwyo
- Gormod o gywilydd
- Rhy ifanc i wybod ei fod yn anghywir
- Efallai bod ganddynt anghenion ychwanegol
- Wedi cael rhybudd i'w gadw'n gyfrinach

## Ydych yn gwybod beth i'w wneud os ydych yn pryderu am blentyn? Siaradwch am y peth.

**Os oes gennych bryderon, peidiwch a'u hanwybyddu. Efallai yr hoffech siarad amdanynt cyn penderfynu beth i'w wneud. Mae pobl ar gael i'ch helpu:**

**Llinell Gymorth gyfrinachol Stop It Now!**
**0808 1000 900**

**Llinell Gymorth 24 awr yr NSPCC 24**
**0808 800 500**

**Gwasanaethau Cymdeithasol**
Am help/cyngor proffesiynol gan weithiwr cymdeithasol, cysylltwch a'ch awdurdod lleol ar eu prif rif cyswllt a gofynnwch am Gwasanaethau Plant.

**Os oes plentyn mewn perygl ar hyn o bryd**
ffoniwch yr heddlu ar **999**

Os ydych yn ansicr neu'n poeni am unrhyw faterion sy'n ymwneud a cham-drin plant yn rhywiol, gall ein cynghorwyr profiadol yn Stop It Now! siarad a chi a chynnig cyngor cyfrinachol ynglyn a pha gamau y gallwch eu cymryd.

**Llinell Gymorth: 0808 1000 900**
**stopitnow.org.uk**
**parentsprotect.co.uk**
**lucyfaithfull.org.uk**

**@StopItNowWales**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Stop It Now! Wales | Cymru
Helping prevent child sexual abuse

**Ymwelwch â stopitnow.org.uk/wales am fwy o wybodaeth**

## Oeddech chi'n gwybod nad yw'r rhan fwyaf o ddioddefwyr camdriniaeth rywiol byth yn siarad am y peth nag yn gofyn am help? Mae'n amser i ni siarad am y peth.

**Nod y daflen hon yw eich helpu i ddeall y risgiau a sut y gallwn helpu i atal camdriniaeth rhag digwydd i'n plant.**



Stop It Now! Wales | Cymru
Helping prevent child sexual abuse

## Ydych chi'n gwybod y ffactorau allweddol?

- Nid oes un math o gamdriniwr – maent o bob lliw a llun
- Nid yw 1 ymhob 3 plentyn sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol gan oedolyn yn dweud wrth neb
- Ni ddywedodd 4 ymhob 5 plentyn gafodd ei gam-drin gan ei gyfoedyn wrth neb arall ar yr adeg hynny
- Dim ond 1 ymhob 8 plentyn sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol sy'n wybyddus i'r awdurdodau
- Mae 9 ymhob 10 plentyn yn cael eu cam-drin yn rhywiol gan rhywun maent yn ei adnabod
- Mae oddeutu traean o gamdriniaeth rywiol yn cael ei wneud gan blant a phobl ifanc eraill
- Mae plant anabl 3 gwaith yn fwy tebygol o gael eu camdrin na phlant eraill.



## Ydych chi'n adnabod yr arwyddion mewn plant a phobl ifanc?

Yn amlach na pheidio, mae plant yn dangos i ni yn hytrach na dweud wrthym fod rhywbeth yn eu poeni hwy. Efallai bod rhesymau dros newid yn eu hymddygiad, ond os ydym yn sylwi cyfuniad o arwyddion pryderus, gall fod yn amser chwilio am help neu gyngor.

- Newid annisgwyl mewn ymddygiad neu bersonoliaeth
- Cael hunllefau
- Ofn anesboniadwy o bobl neu lleoedd
- Dod yn fwy cyfrinachgar
- Arwyddion corfforol, poenau neu gleisiau anesboniadwy
- Anwyldeb amhriodol
- Anrhegion neu arian anesboniadwy
- Ffrwydriadau o ddicter
- Digalon.

## Ydych chi'n adnabod yr arwyddion mewn oedolion sy'n dangos y gallent fod yn beryglus?

Efallai nad yw'r arwyddion yn amlwg bod oedolyn yn defnyddio eu perthynas gyda phlentyn am resymau rhywiol. Efallai bod achos i bryderu am ymddygiad oedolyn neu berson ifanc os ydynt yn:

- Gwrthod preifatrwydd digonol i blentyn
- Mynnu anwyldeb corfforol gyda phlentyn
- Rhoi gormod o anrhegion i blentyn
- Tynnu lluniau neu gadw cofarwydd o blant eraill
- Siarad am ryw yn aml/trafod rhyw gyda phlant
- Trin plentyn penodol fel ffefryn, gwneud iddynt deimlo'n 'arbennig' o'i gymharu ag eraill
- Ceisio bod, neu yn aml bod ar ben ei hun gyda phlentyn mewn ty, car neu ystafell.

**Darganfyddwch fwy am yr arwyddion mewn plant ac oedolion: parentsprotect.co.uk/warning-signs-in-children-and-adults.htm**

## Ydych chi'n gwybod beth i'w wneud os yw plentyn yn dweud wrthych am gamdriniaeth? Siaradwch am y peth.

**1. Ymateb gyda gofal ac ar unwaith**

**2. Credu'r plentyn**
Os yw'r plentyn yn ymddiried digon ynddoch chi i ddweud wrthych am gamdriniaeth, cofiwch mai anaml maent yn dweud celwydd am bethau.

**3. Bod yn gefnogol**
Peidiwch a gwrthod eu cais neu geisio eu tawelu rhag siarad am y peth.

**4. Cadw'n dawel**
Os byddwch yn mynd yn flin, gall y plentyn feddwl eich bod am ei gosbi. Bydd hyn yn chwarae i ddwylo'r camdriniwr a rybuddiodd y plentyn i ddweud dim am y peth.

**5. Bod yn ofalgar**
Sicrhewch fod y plentyn yn gwybod eich bod yn ei garu ac nad ydynt wedi gwneud dim o'i le – gan ail-adrodd hyn. Sicrhewch fod y plentyn yn gwybod eu bod wedi gwneud y peth iawn yn siarad am y peth.

**6. Gwynebu'r broblem**
Mae'n rhaid i oedolion ddiogelu'r plentyn a gosod cyfrifoldebau priodol gyda'r camdriniwr.

**7. Ail-sefydlu diogelwch**
Gwnewch beth sy'n angenrheidiol i ddiogelu'r plentyn rhag niwed pellach. Rhowch Gynllun Diogelu Teulu yn ei le (gweler isod).

**8. Cael help**
Mae gennym weithwyr proffesiynol allai eich tywys tuag at ddiogelwch a gwella (gweler gefn y daflen).

**9. Peidiwch ag anobeithio**
Gall plant, ac maent yn gwella o gamdriniaeth rywiol.

**Gellir cael gwybodaeth ynglyn a Chynllun Diogelu Teulu ar ein gwefan "Parent Protect!": parentsprotect.co.uk**